**Rhun ap Iorwerth AS / MS**
Dirprwy Arweinydd | Deputy Leader
**a Gweinidog Cysgodol** Iechyd a Chyllid /
**and Shadow Minister** for Health and Finance

**1B Church Street**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7DU**

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
(Drwy e-bost)

Dydd Sadwrn 9 Ionawr 2021

Annwyl Vaughan,

Ysgrifennaf atoch i godi nifer o faterion yn ymwneud â'r rhaglen frechu, er yn gyntaf hoffwn fynegi fy ngobaith gwirioneddol y bydd cyflwyno'r brechlyn yn mynd â ni i bennod olaf y pandemig hwn. Fodd bynnag, mae hyd y bennod honno’n dibynnu'n bennaf ar effeithiolrwydd y rhaglen frechu. Cynigiaf fy nghefnogaeth i bob mesur sy'n cynyddu ei effeithiolrwydd ac yn meithrin ffydd yn y ffordd y mae'r broses yn cael ei gweithredu.

Mae pryderon gwirioneddol am y rhaglen frechu, yn enwedig o ran cyflymder, tryloywder a chyfathrebu yn ystod y camau cychwynnol hyn.

Yn ddealladwy, efallai, bu nifer o bryderon ynghylch arafwch cychwynnol y rhaglen frechu yn ystod y mis cyntaf – mae'r cyhoedd, wedi'r cyfan, yn awyddus i dderbyn y brechlyn. Yn hollbwysig, rydym eisoes wedi gweld gwahaniaethau sylweddol rhwng byrddau iechyd o ran maint a chyflymder, a hoffwn gael rhagor o wybodaeth i'm helpu i ddeall y gwahaniaethau hyn.

Yn benodol, hoffwn i'r cyhoedd yng Nghymru gael mynediad at ddata rheolaidd ar:

- Faint o frechlynnau sydd ar gael i Gymru allan o gyfanswm y DU;
- Faint o frechlynnau sydd wedi'u dosbarthu i bob bwrdd iechyd;
- Faint o frechlynnau sydd wedi'u rhoi, ac i ba grŵp blaenoriaeth y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd wedi eu rhoi.

Ac yn hollbwysig, mae angen y canlynol arnom hefyd:

- Targedau clir, gan gynnwys ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth, y gallwn fesur cynnydd yn eu herbyn.

Mae pobl am wybod **pryd** y gallent ddisgwyl y brechlyn. Bydd nodi'r camau yn eich cynllun, a chynnwys dangosfwrdd o wybodaeth sy'n ateb y cwestiynau uchod yn mynd yn bell o ran helpu i feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd, gan y byddant yn gallu gweld cynnydd drostynt eu hunain.

Rwyf hefyd yn gofyn am eglurder pellach ar y materion canlynol:

- Blaenoriaethu staff iechyd a gofal. Tynnwyd fy sylw at enghreifftiau o staff nad ydynt yn dod i gysylltiad â chleifion sy'n cael y brechlyn cyn nyrsys ward Covid
- Capasiti gweithredol System Imiwneiddio Cymru, yn benodol yn ei haddewid i "greu apwyntiadau ac amserlennu ail ddosau yn awtomatig, anfon llythyrau apwyntiad a chofnodi brechiadau ar gyfer pob brechlyn COVID-19 a roddir" – a allech gadarnhau ei fod yn gallu cyflawni'r holl dasgau hyn ar hyn o bryd?

Yr wyf wedi ceisio cyfeirio at arfer da o fannau eraill y gallai Cymru ddysgu oddi wrthynt drwy gydol y pandemig hwn. Ar hyn o bryd mae Israel yn arwain y ras fyd-eang wrth frechu ei phoblogaeth yn erbyn y feirws gydag 16% o'i phoblogaeth wedi'i brechu wrth ysgrifennu'r llythyr yma. Felly er enghraifft:

- A fydd Cymru'n dilyn eu model o ganolfannau brechu gweithredol 7 diwrnod yr wythnos?
- Mae eu defnydd o ganolfannau brechu ar ffurf gyrru drwodd yn helpu i gyflymu'r broses o ddarparu brechlynnau. Rwy'n deall bod cynllun peilot ar y gweill yma ond a yw defnydd eang o ganolfannau o'r fath yn rhan o'ch cynllunio?
- Ar ddiwedd pob diwrnod, mae unrhyw frechlynnau parod sy'n weddill ar gael i unrhyw un sy'n cyrraedd, nid dim ond y rhai sy'n bodloni'r meini prawf oedran neu alwedigaeth, fel nad yw brechlynnau parod yn cael eu gwastraffu. A allai hynny fod yn opsiwn i leihau gwastraff ymhellach?

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar sut y bydd arloesedd yn cael ei annog yn y rhaglen frechu.

Mae gennym gyfnod byr o wythnosau cyn i'r difrod o amodau caeth, yn enwedig cau ysgolion, ddod yn fwy arwyddocaol fyth. Ar hyn o bryd mae gennym feirws sy'n heintio mwy o bobl bob wythnos nag sy'n cael y brechlyn. Felly, mae ehangu cyflymder a graddfa'r brechiad yn hanfodol, yn ogystal ag adfer hyder y cyhoedd bod gan lywodraethau gynllun i ennill y frwydr hon yn erbyn y feirws.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb brys.

**Yn gywir,**

Rhun ap Iorwerth AS / MS
Dirprwy Arweinydd, Plaid Cymru

✉ rhun.apiorwerth@senedd.cymru / rhun.apiorwerth@senedd.wales
☎ 01248 723 599 / 0300 200 7181
@Rhunapiorwerth rhunynysmon